



Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Trawsfynydd

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 2014

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymroddiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddiol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau yn chwarterol i aelodau Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd (SSG) ac maent hefyd ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lc/>).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

TABL CYNWYS

1	ARCHWILIADAU	3
2	MATERION ARFEROL	3
3	MATERION ANARFEROL	4
4	GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO	4
5	NEWYDDION GAN YR ONR	6
6	CYSYLLTIADAU	6

1 ARCHWILIADAU

1.1 Dyddiadau archwiliadau

Fe gyflawnodd arolygydd safle'r ONR arolygiadau ar y dyddiad canlynol yn ystod y chwarter:

- 8 i 10 Ebrill
- 13 i 14 Mai
- 2 Mehefin
- 23 i 26 Mehefin

2 MATERION ARFEROL

2.1 Archwiliadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- Yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- Y Ddeddf Ynni 2013
- Y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HWSA74); a
- Rheoliadau a wnaed o dan HWSA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999 (IRR99) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r archwiliad yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithriad.

Yn y cyfnod hwn, cwmpasodd arolygiadau rheolaidd safle Trawsfynydd y canlynol:

- Marcio ffin y safle. Mae ffin y safle wedi ei farcio gan arwyddion mewn cyflwr da, ac mae tystiolaeth o archwilio rheolaidd
- Digwyddiadau ar y safle. Mae categorieiddio digwyddiadau, sy'n ysgogi adrodd ac ymchwilio, yn ddigonol. Mae ymchwiliadau wedi eu monitro, er fy mod o'r farn y byddai mwy o welededd yn sefydliad y trwyddedai yn fuddiol.
- Hysbysiadau rhybuddio. Mae'r trwyddedai wedi darparu hysbysiadau rhybuddio ond mae ei drefniadau ar gyfer rheoli'r hysbysiadau hyn ychydig islaw'r safon mewn nifer o ardaloedd; ymddengys nad yw'r gofrestr o arwyddion yn hysbys iawn nac wedi ei chynnal yn dda, ac fe ymddengys nad yw lleoliad yr arwyddion yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Rwyf hefyd o'r farn y byddai darpariaeth arwyddion ar gyfer llwybrau dianc yn fuddiol mewn rhai ardaloedd. Rwyf wedi codi mater i'r trwyddedai ddelio â'r methiannau hyn.
- Cyfarwyddiadau i bersonau ar y safle. Mae gan y trwyddedai broses effeithiol i sicrhau y darperir cyfarwyddiadau digonol.
- Datgomisiynu. Wedi adolygu trefniadau'r trwyddedai, ac ymweld â'r cromgelloedd gwastraff gweithredol a siarad ag aelodau allweddol o dîm y prosiect, rwyf o'r farn fod y trwyddedai yn rheoli datgomisiynu'r cromgelloedd gwastraff gweithredol yn ddigonol.

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, lle yr ystyriwyd bod gwelliannau yn angenrheidiol, gwnaeth y trwyddedai ymroddiadau boddhaol i

fynd i'r afael â'r materion, a bydd yr arolygydd safle yn monitro cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

Cynhaliodd y safle ei arddangosiad blynyddol o'i drefniadau argyfwng ar 25 Mehefin. Roedd yr arddangosiad yn ddigonol; rwy'n ystyried fod y mesurau a gymerwyd i ddiogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd yn rhagorol, ac er bod problemau yn gysylltiedig â diogelu personél ymateb y safle, nid oedd yr un o'r rhain yn debygol o fod wedi achosi niwed difrifol a gellid priodoli rhai ohonynt i natur ffug yr ymarfer. Fodd bynnag, rydw i wedi gofyn i'r trwyddedai arddangos rheolaeth ddigonol o ymatebwyr mewn ymarfer shifft yn y dyfodol yn llwyddiannus.

Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o ddiogelwch a'r amgylchedd ar 14 Mai. Roedd safle yn cydnabod y materion diogelwch oedd ganddo yn gynnar yn y cyfnod adrodd, ac mae wedi gwneud nifer o newidiadau (yn dechrau ar lefel y tîm arweiniol) i ddelio â'r gwersi a ddysgwyd. O ganlyniad, mae diwylliant diogelwch y safle yn dechrau gwella'n weladwy.

3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Roedd un mater i adrodd arno yn ystod y cyfnod: -

Newid Sefydliad Corff Rhiant ar gyfer Cwmnïau Trwydded Safle Niwclear

Ar ddiwedd Mawrth 2014, cyhoeddodd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) mai Partneriaeth Cavendish Fluor (CFP) oedd yr ymgeisydd dewisol i fod yn gyfrifol am y rôl Sefydliad Corff Rhiant (PBO) yn Magnox Limited a Research Sites Restoration Ltd (RSRL). Mae proses drosiant yn digwydd tan ddiwedd Awst 2014, gyda'r CFP yn cymryd rheolaeth lawn o'r cwmnïau trwydded safle niwclear ar 1 Medi 2014. Yn y cyfamser, mae'r ONR ac asiantaethau'r amgylchedd wedi bod yn trafod gyda CFP a'r NDA i sicrhau:

- Y bydd y PBO yn barod i gymryd yr awenau yn y deg safle Magnox Limited a dau safle trwyddedig RSRL;
- Bydd gan y PBO bersonau addas yn barod i ymgymryd â rolau enwebedig yn y safleoedd;
- Bydd y safleoedd yn dal i gydymffurfio gyda gofynion rheoleiddio diogelwch, diogelu, cludiant, mesurau gwarchod ac amgylcheddol; ac
- Fod ymgynghoriad priodol gyda chwmnïau trwydded safle yn digwydd.

Bydd yr ONR yn darparu diweddariadau pellach mewn adroddiadau SSG yn y dyfodol ar gynnydd i gwblhau'r broses drosiant ac adrodd ar unrhyw newidiadau sefydliadol arwyddocaol yn y safleoedd arfaethedig gan y PBO newydd.

4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall arolygwyr safle ONR, arolygwyr arbenigol ac arolygwyr HSE gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwyddedu safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd; gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant fod ar ffurf arall. Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

- Cyhoeddwyd yr LI canlynol yn ystod y cyfnod:

LI 526: Daeth yr NDA yn dirfeddiannwr ar gyfer pob safle Magnox dan y Ddeddf Ynni 2004. Ar hyn o bryd mae Magnox, y trwyddedai, yn meddiannu'r safleoedd dan amodau Contract Rheoli a Gweithrediadau gyda'r NDA. Ni fu unrhyw brydles flaenorol ar gyfer unrhyw un o'r safleoedd hyn yn ystod perchnogaeth yr NDA. Mae'r NDA a Magnox wedi cytuno ei bod yn ddymunol i roi prydlesau ffurfiol ar gyfer yr holl safleoedd Magnox, gan ddod â nhw yn gyfartal â gweddill ystâd yr NDA ac yn gwella diogelwch daliadaeth Magnox a rhoi mwy o reolaeth iddo o'i safleoedd trwyddedig. Bydd y prydlesau yn caniatáu i Magnox ddewis isosod rhannau o'r safle (yn amodol i ofynion LC 3).

Mae'r cais gan Magnox a'r NDA yn ymwneud â'r brydles fel trafodyn eiddo yn unig; nid oes unrhyw newid i'r gweithgareddau neu ardal drwyddedig unrhyw un o'r safleoedd. Felly, nid yw'r sail wreiddiol ar gyfer trwyddedu'r safleoedd wedi newid. Nid oes newid i unrhyw Gydsyniad LC3 presennol a, ble fo'n briodol, byddant yn parhau fel Cysyniadau wedi eu hatodi i drwydded pob safle.

Fel y disgrifiwyd uchod, bydd CFP yn cymryd rheolaeth lawn o Magnox Limited ar 1 Medi 2014, a bydd y prydlesau newydd yn effeithiol o'r dyddiad hwnnw.

Gellir dod o hyd i adroddiadau gyda manylion y penderfyniadau rheoleiddio uchod ar wefan yr ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

5 NEWYDDION GAN YR ONR

Gellir cael cipolwg ar waith yr ONR fel rheolydd annibynnol i'r diwydiant niwclear yn Newyddion Chwarterol yr ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/onr-quarterly-report.htm>) yn adrodd ar themâu a datblygiadau allweddol ym mhob un o raglenni rheoleiddio'r ONR ac yn darparu diweddariad ynglŷn â'r newidiadau i ddod yn ONR. <http://www.onr.org.uk/index.htm>. I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, ewch i'r wefan a chofrestrwch ar gyfer eich e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

Adroddiad Blynyddol a Safle Ariannol 2013-14

Mae adroddiad yr ONR yn ddogfen sy'n cyd-fynd ag [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr HSE 2013/14](#) ac fe'i bwriedir i gyflwyno ein sefyllfa gychwynnol o ran cyflawniadau a rheolaeth ariannol, wrth inni gychwyn bywyd fel corfforaeth gyhoeddus.

Mae'n cynnwys Datganiad Blynyddol y Prif Arolygydd Niwclear 2013/14 ar ddiogelwch a chraffu ar yr ystâd niwclear ac yn crynhoi dyfarniadau'r ONR ar y meysydd mae'n eu rheoleiddio.

Gyda'r adroddiad hwn rydym yn dweud fod yr holl safleoedd a reoleiddir gennym yn ddiogel a'n bod yn gweithio tuag at leihau peryglon.

Mae angen gwneud gwaith pellach mewn rhai safleoedd, yn arbennig Sellafield ble mae gennym strategaeth reoleiddio newydd ar waith, ond rydym yn ymgysylltu â thrwyddedeion o sicrhau gwelliannau mewn meysydd penodol. Mae'r adroddiad ar gael ar [wefan yr ONR](#).

Strategaeth yr ONR 2015-2020

Mae'r ONR yn chwilio am adborth ar ei strategaeth newydd, sy'n darparu gweledigaeth a chyfeiriad i'r ONR a rheoleiddio niwclear yn y pum mlynedd nesaf. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg o 14 Gorffennaf i 6 Hydref ar wefan yr ONR. Mae gan yr ONR rwymedigaeth statudol i sefydlu strategaeth newydd erbyn 1 Rhagfyr.

Gallwch lawrlwytho'r strategaeth trwy [dudalen ymgynghoriadau cyhoeddus](#) gwefan yr ONR.

6 CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa dros Reoli Niwclear

Redgrave Court

Merton Road

Bootle

Glannau Mersi

L20 7HS

gwefan: www.onr.org.uk

e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2014

Os ydych yn dymuno ailddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright am fanylion.
Cyhoeddwyd Gorffennaf 2014

Ar gyfer dogfennau cyhoeddus, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.